

Gwybodaeth i Gleifion

Ar ôl eich llawdriniaeth ar yr amrant

Uned Llygaid

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi ei chreu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych yn dilyn eich llawdriniaeth.

Faint o boen y dylwn i ei ddisgwyl yn dilyn y llawdriniaeth?

Gall yr anesthetig a chwistrellir o amgylch ardal yr amrant gymryd hyd at 2 awr i golli effaith yn llwyr.

Mae'n bosibl y bydd hyn braidd yn anghysurus. Dylech leddfu hyn trwy gymryd poenladdwyr gwan megis Paracetamol. Os teimlir bod angen, bydd eich llawfeddyg yn rhoi presgripsiwn i chi am boenladdwr cryfach.

Ddylwn i ddiogelu fy llygad?

Fel arfer ni roddir dresin ar eich llygad ar ôl llawdriniaeth ar yr amrant (ac eithrio pan fo'r llawfeddyg yn awgrymu rhoi). Cewch wisgo eich sbectol neu sbectol haul eich hun.

Pa gamau arbedol bydd angen i mi eu cymryd yn dilyn fy llawdriniaeth?

I helpu atal gwaedu a lleihau'r chwydd i gychwyn:-

- Gorffwyswch yn dawel heddiw.
- Peidiwch ag yfed alcohol, bwydydd sbeislyd na hylif poeth iawn.
- Mae'n bosibl y bydd eich llawfeddyg yn gofyn i chi roi pecyn iâ ar eich amrannau gartref yn hwyrach heddiw. Cewch wybod sut mae gwneud hyn gan y nyrs.

Beth mae angen i mi fod yn ofalus yn ei gylch ar ôl y llawdriniaeth?

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gleisio a chwydd o amgylch yr amrannau a rhywfaint o hylif am y 24 awr cyntaf.

Dylech gysylltu â ni os digwydd unrhyw rai o'r isod:

- Os yw gwaedu'n para'n hwy na chyfnod byr.
- Chwydd amlwg o amgylch yr amrant.
- Poen difrifol nad yw poenladdwyr yn ei leddfu.
- Llif parhaus.

Ddylwn i olchi fy amrant?

Gallwch sychu o amgylch yr amrant yn ysgafn gyda ffyn gwlân cotwm a dŵr berw wedi oeri. Peidiwch â sychu wrth y pwythau rhag ofn i chi eu tynnu nhw allan neu amharu ar y briw.

A gaf fi sylw yn y clinig?

Cewch apwyntiad clinig gan y nyrs i weld meddyg ac os oes angen cewch dynnu eich pwythau bryd hynny. Parhewch i gymryd eich diferion llygaid neu eli yn ôl y presgripsiwn tan yr apwyntiad hwn.

Â phwy dylwn gysylltu os ydw i'n poeni?

Os ydych chi'n bryderus am eich llygaid neu mae gennych ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Clinig Llygiad Brys – 01633 238856

8:30am-5:00pm

Y tu allan i'f hyn, cysylltwch a'r meddyg offthalmoleg sydd ar alwad dwy'r switsfwrdd

Nodiadau Personol:-

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**